Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH OEDOLION A PHOBL HŶN:

# Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad

**I bobl hŷn gael mynediad i'r wybodaeth a'r arweiniad cywir.**

Rydyn ni eisiau i bobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia gael mynediad at y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.

I gyflawni hyn, byddwn ni'n gweithio tuag at:

- Gwella ymwybyddiaeth o gamau cynnar dementia, a sut i gael diagnosis a chymorth.
- Gwella mynediad at wybodaeth fel y gall pobl ddeall yn well sut y gallan nhw gefnogi rhywun â dementia.
- Datblygu lleoedd diogel fel y gall pobl fynychu gwasanaethau a gweithgareddau yn eu cymunedau.
- Creu dull gweithredu rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Sicrhau bod cymorth teg ar gael ar draws ein rhanbarth.



## BETH SY'N BWYSIG I BOBL HŶN?

Hoffai pobl hŷn weld gwybodaeth hygyrch yn cael ei rhannu, fel nad yw pobl yn cael eu cau allan oherwydd eu namau synhwyraidd neu'u gallu digidol.

Hoffen nhw weld gwybodaeth a rhannu gwybodaeth ar lawer o lefelau, fel bod gweithwyr proffesiynol a phobl â phrofiadau byw yn gwybod am yr holl wasanaethau sydd ar gael yn y rhanbarth, ac yn cymryd rhan mewn gwelliannau a datblygiadau.



## DYWEDODD POBL

"Dydyn ni ddim yn gwybod beth dydyn ni ddim yn ei wybod."

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Gweithredu Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan.
- Parhau i hyrwyddo cymunedau Cyfeillgar i Ddementia.
- Adolygu cymorth dementia a gomisiynwyd.

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Mwy o wybodaeth am ba wasanaethau/gweithgareddau sydd ar gael.